Presennol : PSCO Ian Rooksby, Heddlu Gogledd Cymru gyda'r Cynghorydd Erddyn Davies yn Cadeirio'r cyfarfod, a'r Cynghorydd Emyr Ll. Williams, Marian Roberts, T. Cyril Owen, Rhys Pugh a Geraint R. Jones yn bresennol gyda Bryn Hughes, Y Clerc. Cafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Dafydd Iwan, Catrin Roberts a Hilma Ll. Edwards yn ogystal â'r Cynghorydd Sir, Chris Hughes.

Fe ddechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy air o groeso i PCSO Ian Rooksby. Dyma brif bwyntiau cyflwyniad y PCSO : (1) Fe benderfynodd yr Heddlu ddosbarthu pamffledi sydd yn datgan fod achosion o byrgleriaeth wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar. (2) Aeth ati i egluro'r camau gall preswylwyr ei gymryd i geisio arbed eu hunain rhag y math yma o ddigwyddiad. (3) Esboniodd sut gall yr Heddlu diogelu manylion unigolyn sydd yn penderfynu adrodd am drosedd i'r Heddlu a dywedodd pa mor bwysig yw i'r gymuned ymddiried ynddynt. (4) Mae cynnydd wedi digwydd yn niweddar mewn lladrata olew gwresogi, petrol a disl o gerbydau, gwahanol fathau o gynnyrch metel, a beiciau. (5) Mae'r Heddlu yn awyddus i gynnal cyfarfodydd rheolaidd hefo'r cyhoedd, unwaith pob tri mis a gofynnodd am farn yr aelodau ar hyn.

Datganodd y Cadeirydd, Cyng. Erddyn Davies, ei anfodlonrwydd gyda'r ffaith ei fod ef wedi adrodd ar ddigwyddiadau o ladrata yn Cae Stanley ond nid yw'n clywed dim na chael diweddariad ar y sefyllfa. Fe ddywedodd Cyng. Ifor D. Williams fod yna nifer o ddigwyddiadau wedi digwydd yn ardal Llanfaglan a'i fod ef yn siomedig gydag ymateb yr Heddlu. Dywedodd y PCSO mai cael tystiolaeth yw'r broblem. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r PCSO gyflwyno ei hun i'r Ieuenctid oedd yn cyfarfod y noson honno yn y Ganolfan. Dywedodd y bwriadai wneud hynny wedi darfod y cyflwyniad yma. Fe ddiolchodd y Cadeirydd i'r PCSO am ei gyflwyniad a fe adawodd y cyfarfod

Parc y Plwyf, Llanfaglan.
Adroddodd y clerc bod Mr Moi Evans wedi bod i ffwrdd o'i waith a'i fod yn dychwelyd yr wythnos ganlynol. Dywedodd ymhellach ei fod wedi gadael neges gyda staff swyddfa Mr Evans iddo ddod i gysylltiad ag ef er mwyn trefnu cyfarfod ar y safle. Y prif gwestiwn yw'r angen yntau ddim am ddatganiad dyluniad a mynediad.
Penderfyniad : Derbyn adroddiad y clerc a disgwyl iddo drefnu'r cyfarfod.

Ceir ar werth sydd yn parcio ar y ffordd ger Stad y Bryn : Ymateb gan Mr Dafydd Wyn Williams, Uwch Reolwr Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd
Yn ei lythyr, dywedodd Mr Williams y byddai person yn cyflawni trosedd o dan Adran 3 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 os yw'n gadael dau neu fwy o gerbydau wedi eu parcio o fewn 500 medr i'w gilydd, ar y ffordd lle maent yn agored neu yncael eu hysbysebu ar werth. Dywedodd ymhellach ei fod am drefnu i'r safle gael ei fonitro gyda'r bwriad o gychwyn camau gorfodaeth ar y cyd ag asiantaethau gorfodi eraill.
Penderfyniad : Derbyn yr hyn sydd gan Mr Williams ei ddweud ond y clerc i ysgrifennu ato a'i atgoffa bod y nifer o geir sydd yn parcio yma, weithiau trwy'r dydd, yn creu risg uchel o ddamwain ddigwydd.

Casgliadau gwastraff dros cyfnod gwyliau'r Nadolig : Ymateb gan Mr Steffan Jones, Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu, Cyngor Gwynedd
Yn ei lythyr, dywedodd Mr Jones na fydd casgliadau ar Ddydd Llun a Mawrth, Rhagfyr 26ain a 27ain, ond byddai'r Cyngor yn trefnu casgliadau dwbl yr wythnos ganlynol.
Penderfyniad : Mae'r clerc i ysgrifennu at Mr Jones a chyfleu anfodlonrwydd yr aelodau gyda'r sefyllfa o biniau yn disgwyl cael eu casglu am pythefnos a'r risg i iechyd a Diogelwch y gymuned. Mae'r aelodau angen scirwydd gan Mr Jones y bydd casgliad yn digwydd yn fuan iawn ar ôl y Nadolig.

Adroddiad y Cynghorydd Dafydd Iwan i arwyddion ardal : Ymateb gan Mr Dafydd Wyn Williams, Uwch Reolwr Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd
Yn ei lythyr, diolchodd Mr Williams am adroddiad y Cynghorydd Dafydd Iwan. Fe ddywedodd mai dim ond rhai o'r argymhellion sy'n cyfeirio at ffyrdd sy'n dod o dan awdurdodaeth Cyngor Gwynedd, sef Y Foryd a Groeslon. Mae gweddill yr argymhellion wedi ei basio 'mlaen i Iolo Tegid, Peiriannydd Traffig yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Dywedodd ymhellach ei fod yn cytuno bod yr arwydd ***"I'r Traeth / Sea Shore"*** ger Llanfaglan yn gamarweiniol a buasai arwydd ***"Y Foryd / Foryd Bay"*** yn fwy addas. Ychwanegodd os yw Cyngor Cymuned Bontnewydd yn cytuno ar y geiriad, yna gellir symud ymlaen i archebu'r arwydd newydd. Ar ddiwedd ei lythyr, fe ddiolchodd am gyfeirio ei sylw at wallau iaith rhai arwyddion, fel y ffurf ***"filltir / milltir"*** a bwriadai newid unrhyw arwydd sydd yn anghywir. **Penderfyniad : Derbyn y llythyr ac ymateb ynglyn y cynnig o'r arwydd newydd wedi ymgynghori a chael barn Cyng. Dafydd Iwan.**

CYFRIFON 2011-2012 : DATGANIAD Y BANC - Balans hyd at 28 Hydref 2011 yn £19,198.05

CYFLOG A CHOSTAU CLERC HYDREF 2011 – Cyflog Gros = £208.18; Costau swyddfa a threuliau = £91.94
Cyfanswm Gros = £300.12; llai Treth Incwm - £41.60; Cyfanswm net = £258.52

CLWB PELDROED IEUENCTID BONTNEWYDD : Cais gan y clwb i ymgorffori yswiriant yr unedau gyda yswiriant cynhwysfawr y Cyngor Cymuned (mae'r Cae Peldroed yn rhan o yswiriant y Cyngor Cymuned yn barod)
Penderfyniad : Derbyn y cais ac ymgorffori yswiriant yr unedau gyda yswiriant cynhwysfawr y Cyngor Cymuned. Y Clerc i drefnu gwneud hynny ar fyrder. Ynghlwm i'r gytundeb mae 3 amod, sef :
(1) Rhaid i'r Clwb Pel-droed Ieuenctid gwneud cais yn flynyddol am i'r Cyngor Cymuned dalu'r yswiriant.
(2) Ni fyddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn hawliad gan y Clwb Peldroed Ieuenctid yn erbyn yr yswiriant am swm o dan £200. (3) Mi fyddai'r Clwb Peldroed Ieuenctid yn gyfrifol am y gormodedd yswiriant o £100 ar bob hawliad ganddynt yn erbyn yr yswiriant, cyn belled ag y bodlonir yr ail amod.

YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD : Cais am gefnogaeth ariannol ar gyfer uwchraddio offer TGCh yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cynllunio i fuddsoddi £6,000 yn y flwyddyn cyntaf gan gynnwys sefydlu gwefan newydd i'r ysgol gyda'r gobaith o gynnwys tudalen ar y Gymuned oddi fewn i'r gwefan. **Penderfyniad : I'w ystyried yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2012, ond yn y cyfamser, mae'r Clerc i drefnu cyfarfod gyda Mrs George y Prif Athrawes er mwyn derbyn rhagor o wybodaeth.**

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Iau, Ionawr 19eg 2012 am 7 o'r gloch - NI CHYNHELIR CYFARFOD YM MIS RHAGFYR